Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Cwmllynfell**

**Cylch Meithrin Cwmllynfell**
**Ysgol Gynradd Cwmllynfell**
**Heol Y Bryn, Cwmllynfell**
**Swansea**
**SA9 2FJ**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn âCylch Meithrin Cwmllynfell

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Cwmllynfell |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae plant yn hapus ac yn hyderus i gyfleu eu dymuniadau, a chaiff eu hanghenion eu hystyried yn aml. Maent yn cael rai cyfleoedd i wneud dewisiadau, a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae plant wedi setlo ac yn meithrin cydberthnasau agos â'u ffrindiau a'r staff. Maent yn mynegi mwynhad ac yn dod yn gyfarwydd â threfniadau arferol.

Mae staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth i rheoli risgiau ac yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Mae staff yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol ac yn datblygu systemau i gefnogi eu dysgu. Fodd bynnag, mae yna phedwar argymhelliad i wella'r arfer.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y cylch meithrin yn cynnig amgylchedd lle mae plant yn cael y rhyddid i symud o amgylch y safle yn hyderus. Mae adnoddau a darpariaeth o safon ar gael ar gyfer oedran y plant ac yn cael eu cadw yn dda. Fodd bynnag, mae yna un maes i'w wella er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnig safle sydd yn hollol ddiogel.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y cylch meithrin yn rhagweithiol yn y broses o gyflwyno gwelliannau i'r lleoliad. Mae ganddynt lawer o bolisïau a gweithdrefnau effeithiol yn eu lle ac mae llawer o agweddau'r lleoliad wedi'u rheoli yn briodol. Fodd bynnag, mae yna un maes i'w wella, er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau rheoleiddio yn cael eu gwreiddio'n gywir.

| Llesiant | Digonol |
|---|---|

Mae plant yn cyfathrebu'n hyderus yn aml, ac ar y cyfan, mae eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Er enghraifft, dewisodd plant i fynd at yr îsl peintio lle cafwyd cyfleoedd di-ri i fwynhau eu profiadau yn cymysgu paent yn annibynnol. Mae plant yn cael rhai cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, maent yn dewis ble i eistedd ar gyfer amser snac ac yn cael gadael y bwrdd yn annibynnol. Mae diddordebau'r plant yn cael eu hystyried a'u parchu. Maent yn gallu gwneud penderfyniadau a mynegi barn wrth iddynt ddewis ble i chwarae yn yr ardaloedd tu fewn a chymryd eu hamser i gwblhau tasgau yn eu hamser eu hunain.

Mae llawer o blant yn cyrraedd ac yn setlo yn dda. Maent yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gyfarwydd â threfniadau'r bore. Mae'r newid yn y drefn ar ddiwedd sesiwn bore a dechrau sesiwn prynhawn yn gyfnod prysur, lle mae ychydig o blant yn dangos ansicrwydd. Ond mae plant yn gwybod bod staff wrth law ac yn gyfforddus i edrych am gysur yn ystod y cyfnodau yma, megis eistedd ar ben-glin aelod staff am stori.

Mae plant yn rhyngweithio mewn modd cadarnhaol ar y cyfan gyda'r mwyafrif yn cydweithio ac yn dangos diddordeb wrth gyd-chwarae. Mae llawer o blant y sesiwn bore yn rhyngweithio yn agored ac yn hapus i drafod a gofyn cwestiynau. Er enghraifft, wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd anifeiliaid, roedd llawer o blant yn mwynhau dysgu enwau'r anifeiliaid ac yn hoffi ail-adrodd. Yn y sesiwn hwyrach, mae plant ar y cyfan yn rhyngweithio'n hapus boed mewn grwpiau neu drwy ddangos adnoddau i ymwelwyr. Ar y cyfan, mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gadarnhaol ac mae ychydig yn dechrau dangos empathi.

Mae'r mwyafrif o blant yn dangos diddordeb yn eu chwarae boed drwy adeiladu gyda blociau pren, chwarae yn y dŵr, neu arbrofi yn y gweithgareddau sydd wedi eu paratoi ar eu cyfer. Maent yn cael cyfleoedd i ddechrau eu chwarae eu hunain a chael cyfnodau i ymlacio yn ôl eu dewisiadau. Er enghraifft, ar ôl edrych ar lyfr aeth ychydig o blant i edrych am anifeiliaid i gyfateb â'r rhai yn y llyfr a'u henwi'n hyderus. Mae plant yn cael cyfleoedd i fwynhau profiadau gwyddonol ac arbrofi gyda dŵr a lemonau. Maent yn dangos mwynhad wrth ganolbwyntio. Er enghraifft, wrth ymateb i effeithiau eitemau yn cael eu hychwanegu at ddŵr.

Mae plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth ac yn mwynhau'r rhyddid i gyflawni tasgau ar eu pen eu hun. Er enghraifft, wrth iddynt baratoi'r bwrdd ar gyfer amser snac, maent yn hoffi'r dasg o sychu'r bwrdd. Mae plant yn cael cyfleoedd i ddosbarthu cwpanau a phlatiau cyn mwynhau'r cyfrifoldeb o arllwys llaeth neu dŵr i gwpanau'r plant. Maent hefyd yn cael y cyfle i wacau eu platiau i'r blwch ailgylchu bwyd a mwynhau'r profiad o olchi a sychu eu llestri eu hunain. Mae plant yn annibynnol wrth iddynt olchi eu dwylo yn dilyn gweithgareddau fel peintio. Maent yn datblygu eu harfer o ddilyn strwythur a threfn ac yn dechrau datblygu parch tuag at eiddo a phobl.

## Gofal a Datblygiad **Digonol**

Mae staff i gyd yn deall eu cyfrifoldebau ac yn mynd ati i weithredu polisïau'r lleoliad er mwyn hyrwyddo ffordd iach o fyw a llesiant personol y plant. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant yn glir ac yn gallu esbonio gweithdrefnau diogelu'r lleoliad. Maent yn cadw cofnodion cywir ac yn dilyn gweithdrefnau effeithiol o ran diogelwch. Er enghraifft, wrth baratoi i symud draw i adeilad yr ysgol ar gyfer cinio, mae staff yn paratoi bwced yn cynnwys cofrestr, allwedd a meddyginiaeth plant. Mae staff yn dilyn polisi newid cewynnau yn glir ac yn sicrhau bod y gweithdrefnau yn bwrpasol a chywir. Maent yn dangos parch ac urddas ac yn sicrhau amser, lle mae cofnodion yn cael eu cwblhau yn gywir. Mae ganddynt system glanhau rhwng newid pob cewyn ac yn gosod arwydd ar ddrws yr ardal newid er mwyn sicrhau nad yw'r ystafell ar gael yn ystod y broses. Mae staff yn arddangos posteri alergeddau ac anghenion meddygol, ac yn ymwybodol o'u dyletswyddau i ddiogelu plant yn ystod cyfnodau bwyta ac os ydynt yn sâl. Mae staff yn cadw cofnodion damweiniau a digwyddiadau sy'n cael eu llofnodi yn gywir. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod gweithdrefnau glendid yn eu lle drwy sychu byrddau cyn snac, annog y plant i olchi a sychu dwylo, sychu trwyn, a chadw'r amgylchedd yn lân.

Mae staff yn rhyngweithio mewn modd cynnes a charedig. Maent yn siarad yn glir ac yn magu hyder y plant i ddeall a rhoi cynnig. Mae staff yn fodelau rôl dda ac yn annog plant i ddweud plîs a diolch. Fodd bynnag, er iddynt ddeall ei bolisi rheoli ymddygiad, nid oeddynt yn cyflwyno strategaethau cadarnhaol er mwyn sicrhau bod y plant i gyd yn cael sylw a chyfleoedd i fagu sgiliau cymdeithasol. Mae staff yn gweithio'n galed i hybu ethos o rannu a chymryd tro. Fodd bynnag, ni welwyd gweithdrefnau effeithiol na chyson ar waith i sicrhau bod plant yn gwrando er mwyn dysgu ymddygiadau positif ar draws eu profiadau dysgu.

Mae staff yn paratoi amrywiaeth diddorol a phwrpasol o weithgareddau chwarae a dysgu. Maent yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant ac yn paratoi a chadw cofnodion cynllunio bras. Fodd bynnag, nid yw staff yn dilyn proses manwl o arsylwi, cofnodi a chynllunio'r camau nesaf. Mae staff yn nabod y plant yn dda ac yn gweithio'n galed i gwrdd â gofynion unigol y plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymryd y camau priodol i gefnogi plant drwy weithio gyda rhieni a defnyddio'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt.

| Yr Amgylchedd | Digonol |
|---|---|

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn gweithio’n galed i ddatblygu’r amgylchedd. Maent yn parhau i ddatblygu’r adeilad newydd sydd wedi adeiladu’n bwrpasol ar gyfer lleoliad y cylch meithrin ar safle’r ysgol. Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel lle nad oes modd cael mynediad oni bai bod aelod staff yn agor y brîf ddrws. Mae’r gofynion rheoliadol o ran diogelwch yr adeilad yn gywir. Er enghraifft, maent yn cadw mesurau a pholisïau sydd yn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau i gadw plant ac ymwelwyr yn ddiogel. Maent yn cynnig adeilad o safon dan do ac yn gweithio’n barhaol i ddatblygu’r ardaloedd chwarae allanol. Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cadw arferion rheoli heintiau ac yn hysbysu rhieni ac ymwelwyr yn glir drwy gadw byrddau gwybodaeth fanwl. Maent yn cadw ffeil dân ac offer tân cywir ac yn ymarfer driliau tân pwrpasol drwy ddilyn trefniadau clir ac effeithiol. Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn cadw llyfr ymwelwyr, prosesau cofrestrau cywir i staff a phlant, a bocs cymorth cyntaf. Maent yn cadw ystod o asesiadau risg. Fodd bynnag, nid oedd y rhain i gyd yn bwrpasol. Yn ogystal, ni ddangoswyd tystiolaeth o ddyddiadau a manylion adolygiadau blynyddol er mwyn sicrhau bod ardaloedd, gweithdrefnau a gweithgareddau yn hollol ddiogel. Yn yr un modd, mae’r ardal tu fewn yn cynnig nifer o ardaloedd diddorol, ond nid oedd cyfarpar trydanol bob amser wedi eu lleoli’n addas ac ar brydiau o fewn cyrraedd y plant. O ganlyniad, mae’r materion yma yn faes i’w wella ac rydym yn disgwyl i’r darparwr gymryd camau.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn gweithio’n barhaol i ddatblygu’r adeilad wrth iddynt ymgartrefu o fewn safle newydd. Maent wedi trefnu’r tu fewn yn effeithiol ac yn cynnig amgylchedd croesawgar, cyfeillgar ac agored. Maent yn galluogi plant i gael mynediad rhwydd i ardaloedd chwarae diddorol, cyfarpar o safon a chyfleusterau pwrpasol. Er enghraifft, ardal tŷ bach, ardal ar gyfer cotiau a bagiau’r plant a chegin lle mae byrbrydau’n cael eu paratoi gan staff. Mae allanfa dân yn arwain i ardal agored ychwanegol sydd yn cynnig cyfleoedd ddysgu corfforol a chwilfrydig. Fodd bynnag, ar adeg yr ymweliad nid oedd yr ardal yma ar gael i’w ddefnyddio gan fod cynlluniau ar waith i sicrhau diogelwch llawn i blant. Roedd yr ardal allanol o flaen y lleoliad yn cynnig lle agored o fewn ffens ddiogel sydd dan glo pan mae plant allan yn chwarae. Mae’r adnoddau a’r ddarpariaeth tu fewn o’r safon uchaf ac wedi eu trefnu i gynnig ardaloedd chwarae diddorol a chyffrous i blant megis ardaloedd dŵr, celf, marcio, arbrofi, darllen ac ymlacio.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn darparu adnoddau dan do ac yn yr awyr agored sydd o safon ac yn addas ar gyfer oedran a datblygiad y plant. Maent yn cynnig digon o adnoddau i gynnal diddordeb y plant megis offer adeiladu, brics a mainc gwaith, trenau a chledrau a bwrdd ffermio. Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn arddangos gwaith y plant sy’n ennyn eu diddordeb, fel bwrdd hunan bortreadau. Maent yn dathlu amryw o ddathliadau a diwrnodau penodol megis dydd Santes Dwynwen, Blwyddyn Newydd Tsieineaidd a Ramadan.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth sylfaenol ar gyfer y gwasanaeth. Maent yn rhannu datganiad o ddiben sydd yn adlewyrchu'r gwasanaeth cyfredol ac mae polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn cyrraedd rhan fwyaf o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae y rhain yn cael eu hadolygu ac yn cynnwys gweithdrefnau y mae staff yn deall. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ceisio sicrhau eu bod yn bodloni llawer o reoliadau ac maent yn dangos bod ganddynt brosesau y maent yn awyddus i ddatblygu yn bellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Mae hwn yn agwedd glir o waith ac ethos y lleoliad ac mae'r staff yn gweithredu ar hyn yn barhaol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw trefn ar waith papur rheoliadol, megis ffeiliau cofrestru'r plant ac yn cadw cofnodion mewn lle diogel ar y safle. Maent yn rheoli rhifau a chymarebau staff i blant yn gywir ac yn goruchwylio'r plant mewn modd boddhaol.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn gwerthuso'r gofal yn briodol ac yn cyflwyno gwelliannau yn dilyn y broses. Maent yn cwblhau adroddiad ansawdd gofal ac yn casglu barn rhieni, plant a staff er mwyn ystyried gwelliannau a datblygiadau yn barhaol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n agos gyda staff i'w cefnogi ac mae staff yn hapus ac yn gweithio'n galed i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn cadw ffeiliau staff ac yn parhau i ddatblygu'r rhain o ran trefn a chysondeb. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal rhai arfarniadau a dilyn proses o oruchwyliaeth sylfaenol. Fodd bynnag, nid oedd bob aelod staff wedi derbyn y broses gyfan. Yn yr un modd, mae staff yn derbyn hyfforddiant ond nid oedd bob aelod staff wedi cwblhau cyrsiau gorfodol. Tra nad oes angen camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad partneriaethau agos gyda'r ysgol lle lleolir y cylch meithrin, ynghyd a chysylltiadau effeithiol gyda swyddogion proffesiynol cefnogol. Dywedodd staff eu bod wedi ymgartrefu yn y lleoliad ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ac anogaeth i ddatblygu'n bellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig i weithio'n agos gyda'r gymuned a rhieni megis derbyn cefnogaeth i ddatblygu eu hardaloedd allanol. Mae rhieni yn ganmoladwy am y ffordd y mae gwybodaeth yn cael eu rhannu ac yn dweud bod eu plant wedi setlo yn gyflym ac yn hapus.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 25 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod yr asesiadau risg yn cynnwys y wybodaeth bwrpasol ddiweddaraf, gan gynnwys asesiadau o unrhyw adnoddau newydd, ac adolygiadau blynyddol, er mwyn sicrhau bod yr ardaloedd, y gweithdrefnau a'r gweithgareddau yn ddiogel heb unrhyw beryglon. At hynny, yn y brif ystafell chwarae, rhaid i'r darparwr sicrhau bod yr holl gyfarpar electronig yn cael ei gadw'n ddiogel mewn mannau diogel a phriodol heb fod o fewn cyrraedd y plant. | Newydd |
| 29 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad blynyddol a sesiynau goruchwylio rheolaidd. At hynny, rhaid i'r darparwr sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol. | Newydd |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| Safon 9 – Ymddygiad | Sicrhau bod y staff yn hyrwyddo polisi ymddygiad y lleoliad er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn rheoli ac yn hyrwyddo lles a datblygiad y plant er mwyn meithrin dull cadarnhaol o reoli ymddygiad. |
| Safon 8 – Maeth a llesiant | Sicrhau bod y staff yn rhoi strategaethau effeithiol a chyson ar waith i hyrwyddo cydberthnasau cynnes mewn amgylchedd ymatebol a magwrus lle y caiff cyfathrebu a gwrando eu hyrwyddo'n gadarnhaol ym mhrofiadau dysgu'r plant. |
| Safon 4 – Diwallu anghenion unigol | Sicrhau bod y staff yn cynllunio ar gyfer anghenion unigol a dewisiadau'r plant ac yn eu diwallu, a gweithio gyda rhieni a gwasanaethau er mwyn sicrhau y caiff y camau priodol eu cymryd neu'r cymorth cywir ei gynnig. |
| Safon 7 – Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio a chofnodi'r hyn y maent yn ei wneud er mwyn helpu i gynllunio camau nesaf eu dysgu a'u datblygiad. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/08/2024